

Adroddiad i'r	Cabinet
Dyddiad y cyfarfod	14 Rhagfyr 2021
Aelod / Swyddog Arweiniol	Cyng. Hugh Evans, Arweinydd Graham Boase, Prif Weithredwr
Awdur yr Adroddiad	Gary Williams, Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd, AD a Chyfreithiol
Teitl	Sefydlu Cydbwyllgor Corfforaethol Gogledd Cymru

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Mae'r adroddiad yn ymwneud â gwneud trefniadau ar gyfer sefydlu Cydbwyllgor Corfforaethol (y CJC) ar gyfer Gogledd Cymru.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1. Hysbysu'r aelodau am y trefniadau sydd angen eu gwneud mewn perthynas â sefydlu CJC a cheisio cymeradwyaeth mewn egwyddor i drosglwyddo swyddogaethau Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru i'r CJC ar ffurf cytundeb dirprwyo.

3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1. Bod y Cabinet yn cytuno mewn egwyddor bod swyddogaethau Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru yn cael eu trosglwyddo drwy gytundeb dirprwyo i Gydbwyllgor Corfforaethol Gogledd Cymru ar yr amod:

- a) bod y fframwaith statudol y mae Llywodraeth Cymru'n ei ddatblygu'n caniatáu ar gyfer dirprwyo swyddogaethau gweithredol perthnasol i Gydbwyllgor Corfforaethol.

- b) bod Cydbwyllgor Corfforaethol Gogledd Cymru yn cytuno i sefydlu Is-bwyllgor, gydag aelodaeth i'w gytuno gyda'r Cynghorau, i ymgymryd â swyddogaethau'r Bwrdd Uchelgais Economaidd.

Cynigir y trefniant hwn er mwyn cyflawni model llywodraethu syml, gan osgoi dyblygu. Bydd adroddiad manwl pellach ar y fframwaith ar gyfer gweithredu yn cael ei gyflwyno i gyfarfod dilynol y Cabinet.

4. Manylion yr adroddiad

- 4.1. Creodd Rheoliadau Cydbwyllgorau Corfforaethol Gogledd Cymru 2021 y CJC yn weithredol o 1 Ebrill 2021.
- 4.2. Mae gan y CJC swyddogaethau o baratoi Cynllun Datblygu Strategol a Chynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol. Mae ganddo bŵer lles economaidd eang hefyd. Mae'n ofynnol bod y CJC yn arfer y swyddogaethau hyn o'r 30 Mehefin 2022.
- 4.3. Mae'r adroddiad ynghlwm fel Atodiad 1 i'r adroddiad yn adroddiad safonol sydd angen ei ystyried gan y Cabinet neu gyfwerth Gweithredol ym mhob un o'r chwe chynghor yng Ngogledd Cymru yn eu cyfarfodydd yn ystod mis Rhagfyr 2021.
- 4.4. Diben yr adroddiad sydd yn Atodiad 1 yw gosod y trefniadau sydd angen eu cyflawni er mwyn sicrhau bod y CJC yn cael ei sefydlu'n briodol ac mewn sefyllfa i arfer ei swyddogaethau erbyn 30 Mehefin 2022. Mae'r rhain yn cynnwys y gofyniad i'r CJC osod cyllideb ar gyfer blwyddyn ariannol 2022/23 ddim hwyrach na 31 Ionawr 2022.
- 4.5. Mae Atodiad 1 hefyd yn nodi'r rhesymeg ar gyfer trosglwyddo'r swyddogaethau gan Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru i'r CJC drwy gytundeb dirprwyo. Y cynnig yw y byddai swyddogaethau'r Bwrdd Uchelgais yn cael eu dirprwyo i is-bwyllgor y CJC.
- 4.6. Cynigir y trosglwyddiad er mwyn manteisio ar y ffaith bod y CJC, yn wahanol i'r Bwrdd Uchelgais Economaidd, yn endid corfforaethol ar wahân sy'n gallu ffurfio cytundebau cyfreithiol o'i hawl ei hun. Y bwriad yw bod y model arfaethedig yn darparu model llywodraethu syml sy'n osgoi dyblygu a chytundebau cyfreithiol parhaus.

- 4.7. Mae Atodiad 1 yn nodi'r egwyddorion sydd wedi'u cytuno gan y Prif Weithredwyr a'r Arweinwyr fel y sail ar gyfer gweithredu unrhyw drosglwyddiad.
- 4.8. Y penderfyniad a geisir yn yr adroddiad hwn yw penderfyniad mewn egwyddor sy'n dibynnu ar Lywodraeth Cymru i ddatblygu fframwaith deddfwriaethol priodol i ganiatáu dirprwyo swyddogaethau'r Bwrdd Uchelgais Economaidd i'r CJC. Mae Llywodraeth Cymru'n datblygu rheoliadau a chanllawiau statudol pellach yn ymwneud â gweithrediad CJC ac mae'n bwysig bod y rhain yn darparu'r sail statudol gofynnol er mwyn gallu symud ymlaen â'r trosglwyddiad arfaethedig.
- 4.9. Yn y cyfamser, mae grant o £250k wedi'i ddarparu i'r rhanbarth gan Lywodraeth Cymru er mwyn gwella capasiti rheoli prosiectau a chomisiynu cymorth proffesiynol (gan gynnwys cyngor cyfreithiol allanol) i gefnogi gweithrediad, a throsglwyddo i'r CJC. Mae'r gwaith yn cael ei arwain gan Gyngor Sir Gwynedd ar ran y rhanbarth ac yn cael ei oruchwylio gan y Prif Weithredwyr a'r Arweinwyr.
- 4.10. Bydd adroddiadau pellach yn cael eu cyflwyno i'r Cabinet mewn perthynas â sefydlu'r CJC maes o law.

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

- 5.1. Mae swyddogaethau'r CJC yn cyd-fynd â blaenoriaethau'r Cyngor ar gyfer ffyniant economaidd a chysylltu cymunedau.

6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

- 6.1. Cynigir bod costau sefydlu'r CJC a throsglwyddo'r Bwrdd Uchelgais Economaidd i'r CJC yn cael eu cynnwys yn y grant o £250mil sydd wedi'i ddarparu i'r rhanbarth gan Lywodraeth Cymru. Nid oes costau ariannol uniongyrchol yn gysylltiedig â'r penderfyniad mewn egwyddor a geisir yn yr adroddiad hwn. Ond bydd costau gweinyddol parhaus yn gysylltiedig â gweinyddu'r CJC a gweithredu ei swyddogaethau. Bydd angen i'r CJC osod cyllideb ar gyfer blwyddyn ariannol 2022/23 erbyn 31 Ionawr 2022 a chytuno ar y cyfraniad y dylid ei wneud gan bob awdurdod lleol.

7. Beth yw prif gasgliadau'r Aseiad o Effaith ar Les?

7.1. Ni chynhaliwyd aseiad o effaith ar les mewn perthynas â'r penderfyniad mewn egwyddor hwn. Bydd aseiad yn cael ei baratoi cyn ystyried y mater yn derfynol.

8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

8.1. Ni chynhaliwyd ymgynghoriad penodol gyda'r Pwyllgor Craffu. Cynhaliwyd gweithdai aelodau i drafod y cynigion i greu CJC wrth iddynt ddod i'r amlwg drwy'r broses deddfwriaethol ac mewn perthynas â'r canllawiau statudol drafft a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â gweithrediad y CJC.

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1. Mae'r canlyniadau ariannol uniongyrchol wedi'u nodi'n glir yn Adran 6. Dylid nodi nad yw'r gyllideb gychwynnol wedi'i chytuno eto ond mae'n debygol o gynnwys swyddogaethau / swyddi llywodraethu craidd na fyddant yn rhy feichus. Rwy'n hyderus y bydd cyllid corfforaethol ar gael i gyllido'r cyfraniad cychwynnol hwn. Ond, bydd yn hynod bwysig bod swyddogion ac Aelodau'n sicrhau bod gwerth am arian yn cael ei gynnal pan fydd swyddogaethau a chyfrifoldebau ychwanegol yn cael eu trosglwyddo i'r CJC sy'n debygol o gynyddu cyfraniadau'r Awdurdodau Lleol yn y dyfodol.

10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1. Mae risg os nad yw'r Bwrdd Uchelgais Economaidd yn cael ei drosglwyddo i'r CJC ni fydd yn gallu manteisio ar fodel llywodraethu symlach y mae'r CJC yn ei gynnig. Gallai hyn arwain at ddyblygu rhanbarthol, costau cynyddol a mwy o bwysau ar gapasiti i wasanaethu'r ddau gorff.

10.2. Mae risg nad yw'r fframwaith deddfwriaethol sy'n dod i'r amlwg yn darparu'n briodol ar gyfer y math o gytundeb dirprwyo a ragwelir ar gyfer y Bwrdd Uchelgais Economaidd.

11. Pŵer i wneud y penderfyniad

11.1. Nid oes pŵer ar hyn o bryd i ddirprwyo swyddogaethau'r Bwrdd Uchelgais Economaidd i'r CJC. Rhagwelir y bydd hyn yn ffurfio rhan o'r fframwaith deddfwriaethol sy'n cael ei ddatblygu gan Lywodraeth Cymru a dyma pam y ceisir y penderfyniad mewn egwyddor.